Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 14 Rhagfyr 2017 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | M C Child | W Evans |
| D H Hopkins | A S Lewis | C E Lloyd |
| J A Raynor | M Thomas | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R Francis-Davies

---

## 94. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 95. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2017.

## 96. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 97. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau mewn perthynas â Chofnod 999 "Abertawe Gynaliadwy – Yn Addas i'r Dyfodol: Cinigion Cyllideb 2018/19 – 2020/21".

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor.

## 98. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 99. Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol: Cynigion Cyllideb 2018/19 - 2021/22

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cynigion cyllideb 2018-2019 tan 2021-2022 fel rhan o Strategaeth Gyllidebol y Cyngor, *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol.*

**Penderfynwyd:**

1) Crynhoi'r cynigion cyllidebol yn yr adroddiad a nodi'r manylion yn Atodiad A ac Atodiad C fel sail i gymeradwyo'r ymgynghoriad;

2) Mabwysiadu'r rhagolwg cyllidebol diweddaraf ar gyfer y dyfodol fel sail cynllunio cychwynnol ar gyfer y cynllun ariannol tymor canolig newydd a fydd yn cael ei ystyried gan y cyngor ar 22 Chwefror 2018;

3) Cytuno ar yr ymagwedd at ymgynghori a chynnwys staff, undebau llafur, preswylwyr, partneriaid a phartïon eraill â diddordeb a nodwyd yn Adran 7 yr adroddiad hwn;

4) Cyflwyno adroddiad am ganlyniad yr ymgynghoriad a'r cynigion cyllidebol terfynol i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 8 Chwefror 2018.

## 100. Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 2 2017-18.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad a oedd yn amlinellu'r perfformiad corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2017-2018.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi ac adolygu'r canlyniadau perfformiad i helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywiro i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 101. Cynnig ar gyfer Cyllid Etifeddol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach adroddiad a oedd yn nodi dyraniad arfaethedig y cyllid etifeddol i'w gymeradwyo.

Amlinellodd y diwygiadau canlynol i'r adroddiad:

a) Tudalen 65, paragraff 3.3. Diwygio'r ffigur a ddyfynnwyd i "£261,819";
b) Tudalen 68, Paragraff 5.1. Diwygio'r ffigur a ddyfynnwyd ar gyfer 2018/19 ar gyfer y 'Partneriaid Cyflwyno Trydydd Parti' i "£263,456";
c) Tudalen 68, Paragraff 5.1. Diwygio'r ffigur a ddyfynnwyd ar gyfer 2018/19 ar gyfer y 'Cynnig Cyflogadwyedd Unigol' i "£66,467".

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo diwygio'r adroddiad yn ôl y diwygiadau a restrir uchod;

2) Cymeradwyo ar egwyddor y cynigion ar gyfer y cyllid etifeddol a gynhwysir yn yr adroddiad, yn amodol ar arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru.

**102. Adolygiad Blynyddol o Daliadau (Gwasanaethau Cymdeithasol) 2017/18.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i daliadau ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2018-2019 fel rhan o'r broses adolygu flynyddol sefydledig a nodwyd ym Mholisi Codi Tâl y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Penderfynwyd:**

1) Rhoi cymeradwyaeth i ymgynghori ar newidiadau posib i daliadau ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion fel rhan o gyllideb ehangach y cyngor - i gynnwys ystyried y canlynol:

- Cyflwyno ffi am wasanaethau dydd i bobl hŷn;
- Cyflwyno ffi am wasanaethau dydd i oedolion iau;
- Cyflwyno ffi am ofal seibiant yn y cartref;
- Cynyddu'r ffi am ofal cartref;
- Cynnydd chwyddiannol ar gyfer holl daliadau gofal cymdeithasol eraill.

**103. Sgiliau'r Fargen Ddinesig**

Cyflwynodd y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Addysg a Sgiliau adroddiad a oedd yn rhoi adborth am y cynnydd hyd yma o ran datblygu polisi ar addysg a sgiliau i ateb heriau'r Fargen Ddinesig.

**Penderfynwyd:**

1) Cafodd yr adborth a roddwyd hyd yma am ddatblygu polisi ar addysg a sgiliau i ateb heriau'r Fargen Ddinesig ei ystyried a bydd y casgliadau a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn cael eu cymeradwyo;

2) Bydd Arweinydd y Cyngor, Aelod y Cabinet, y Prif Weithredwr ac Uwch-swyddogion yn codi'r materion y soniwyd amdanynt yn yr adroddiad hwn a'r trefniadau partneriaeth perthnasol sydd ar waith, ac yn ceisio cyflwyno'r trefniadau llywodraethu a nodwyd yn yr adroddiad hwn pan y cytunir ar y rhain fel ffordd ymlaen ar gyfer y Fargen Ddinesig;

3) Bydd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gweithio gyda swyddogion i sicrhau bod trefniadau lleol yn gadarn ac yn gallu ateb yr heriau a'r cyfleoedd sy'n codi o'r Fargen Ddinesig, gan gynnwys sefydlu trefniadau partneriaethau lleol i fwydo partneriaethau rhanbarthol.

## 104. Arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol i Blant a Phobl Ifanc 2013 - Y diweddaraf am y cynnydd wrth ymateb i'r pum argymhelliad, mis Rhagfyr 2017

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am y cynnydd o ran bodloni'r pum argymhelliad a gafwyd yn Adroddiad Arolygiad Estyn.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cynnydd diweddaraf o ran bodloni'r pum argymhelliad a gafwyd yn Adroddiad Arolygiad Estyn.

**Gadawodd y Cynghorydd R C Steward (Cadeirydd) y cyfarfod.**

**Y Cynghorydd C E Lloyd (Is-Gadeirydd) oedd yn llywyddu.**

## 105. Adolygiad y Gwasanaethau i Oedolion o strategaethau comisiynu ar gyfer anableddau dysgu, anableddau corfforol ac iechyd meddwl

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r cynnydd hyd yma gydag Adolygiadau Comisiynu'r Gwasanaethau i Oedolion mewn perthynas â llety a thai sy'n ymwneud â darpariaeth a gwasanaethau dydd i bobl ag anableddau dysgu, anableddau corfforol a phobl ag afiechyd meddwl, gyda'r nod o geisio trefniadau ar gyfer y strategaethau hynny.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r strategaethau a pharhau i ymgynghori drwy ddilyn y broses ymgynghoriad cyllidebol.

## 106. Ymestyniad o'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant 3 i 4 mlwydd oed.

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Iechyd a Lles a Phlant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ehangu'r cynnig gofal plant i wardiau eraill ar draws Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) Ail-gadarnhau'r cynigion ar gyfer ehangu'r cynnig gofal plant i ardaloedd cam 1 (fel a nodwyd ym mharagraff 3.1 yr adroddiad);

2) Cymeradwyo'r cynigion i Lywodraeth Cymru ar gyfer ehangu'r cynnig gofal plant i gam 2 (fel a nodwyd ym mharagraff 3.5 yr adroddiad);

3) Bydd y cyflwyniad llawn i'r holl ardaloedd yn dilyn cam 2 yn unol â chadarnhad am arian gan Lywodraeth Cymru;

4) Bydd y Cyfarwyddwr Pobl a'r Cyfarwyddwr Lleoedd yn datblygu trefniadau ar gyfer rheoli cyfleoedd ariannu cyfalaf yn y dyfodol.

## 107. Prosiect gweithffyrdd+ - estyn y grant gan gronfa gymdeithasol ewrop a derbyn arian grant ychwanegol

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i estyn prosiect Gweithffyrdd + tan 2022 ac i gymeradwyo'r cynnydd yn y grant a ddyrennir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

**Penderfynwyd**:

1) Nodi'r cynnydd a gafwyd gan y prosiect hyd yma;

2) Rhoi caniatâd i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol, sy'n ymddwyn fel y cyswllt awdurdodi ar gyfer y prosiect, dderbyn y cynnig i estyn y grant a rhoi cyllid ychwanegol a wnaed gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO);

3) Cyflwyno adroddiadau rheolaidd am y cynnydd a wnaed i'r Panel Ariannu Allanol.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.04 pm

**Cadeirydd**

**Cyhoeddwyd: 14 Rhagfyr 2017**